**Memorandwm Esboniadol** ar gyfer Gorchymyn Senedd Cymru (Breinlythyrau a Phroclamasiynau) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Swyddfa'r Prif Weinidog ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Senedd Cymru (Breinlythyrau a Phroclamasiynau) 2021

Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru
11 Chwefror 2021

**RHAN 1**

**Disgrifiad**

1. Mae Gorchymyn Senedd Cymru (Breinlythyrau a Phroclamasiynau) 2021 yn ymwneud â'r Breinlythyrau sy'n rhoi Cydsyniad Ei Mawrhydi i Fil a basiwyd gan Senedd Cymru. Mae'r Gorchymyn yn bwriadu diwygio enw'r Senedd i gyd-fynd â Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn ogystal â diwygio y sawl sy'n gyfrifol am gyflwyno Biliau i gael y Cydsyniad Brenhinol. Mae hefyd yn cynnwys geiriad y proclamasiynau brenhinol sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Llywydd o dan adrannau 4 a 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

**Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

2. Dim

**Y cefndir deddfwriaethol**

3. Mae Adran 116 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006[1] yn cyfeirio at y "Letters Patent" sy'n golygu'r Breinlythyrau a lofnodwyd gan Ei Mawrhydi â’i llaw Ei hunan i ddangos Ei Chydsyniad i Fil a basiwyd gan Senedd Cymru yn ogystal â'r holl broclamasiynau brenhinol o dan adrannau 4(2) a 5(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sydd wedi eu pasio o dan y Sêl Gymreig.

4. Caiff gorchmynion a wneir o dan yr adran hon eu gwneud gan y Frenhines yn y Cyfrin Gyngor ac wedi hynny maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn y Senedd.

5. Gwnaed y Gorchymyn hwn gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ar 10 Chwefror 2021.

6. Daw'r Gorchymyn i rym ar 4 Mawrth 2021.

**Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael**

7. Mae Adran 116 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu y gall Ei Mawrhydi, trwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, wneud darpariaeth ar gyfer ffurf a’r modd o lunio a chyhoeddi breintlythyrau a phroclamasiynau.

8. Nid yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Breinlythyrau) 2011 a wnaed yn flaenorol o dan yr adran hon yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth bresennol o ganlyniad i ddiwygiadau a wnaed i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gan Ddeddf Cymru 2017 a Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020.

[1] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/32/section/116

9. Bydd Gorchymyn Senedd Cymru (Breinlythyrau a Phroclamasiynau) 2021 yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Breinlythyrau) 2011.

10. Diben y Gorchymyn hwn felly yw:

   a) Ymdrin â'r newid enw yn Neddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) o Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru, a

   b) Darparu ar gyfer ffurf y geiriau i'w defnyddio ar gyfer proclamasiynau brenhinol o dan aa.4(2) a 5(2), a basiwyd o dan y Sêl Gymreig. Mae hwn yn ofyniad newydd, a fewnosodwyd gan Ddeddf Cymru 2017, sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Llywydd o dan aa.4[2] a 5[3] o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mewn perthynas â chynnal y bleidlais ar gyfer etholiadau'r Senedd ar ddiwrnodau ar wahân i'r hyn a bennir yn adran 3 o'r Ddeddf honno.

11. Mae'r Gorchymyn hefyd yn cydnabod y newid a wnaed i'r weithdrefn ar gyfer cyflwyno Biliau i gael y Cydsyniad Brenhinol a wnaed gan Ddeddf Cymru 2017. Yn flaenorol, cyfrifoldeb Clercod y Senedd oedd gwneud hyn ond y Llywydd[4] fydd yn gyfrifol am hynny yn awr.

**Ymgynghori**

12. Daeth y diwygiadau deddfwriaethol gofynnol y mae Gorchymyn Senedd Cymru (Breinlythyrau a Phroclamasiynau) 2021 yn ymdrin â hwy i effaith yn Neddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a Deddf Cymru 2017.

13. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd angen ymgynghori er mwyn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

14. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o gostau a manteision tebygol cydymffurfio â'r Gorchymyn gan fod Gorchymyn Senedd Cymru (Breinlythyrau a Phroclamasiynau) 2021 yn dod o fewn yr eithriad a geir yn y Cod lle mae angen diwygiadau technegol neu ddiwygiadau ffeithiol rheolaidd i ddiweddaru rheoliadau.

15. Nid yw'r Gorchymyn hwn yn cael unrhyw effaith ar ddyletswyddau statudol Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud â chyfle cyfartal (adran 77 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), yr iaith Gymraeg (adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), na datblygu cynaliadwy (adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), ac ni fydd yn cael unrhyw effaith ar lywodraeth

[2] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/32/section/4
[3] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/32/section/5
[4] Adran 115(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017

leol, y sector gwirfoddol na chynlluniau busnes o dan adran 73, 74 a 75 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn y drefn honno.